**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2022**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: N.Jenkins a/ac J.Hurley (Cadeirydd)

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas, R.Crowhurst, PWalker, A.Thomas a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd J Hurley yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cynghorydd Hurley bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Bod Blaenraglen Waith Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet yn cael ei nodi.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

7. **YSGOLION BANDIAU C**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig,

1. cymeradwyo cam nesaf y buddsoddiad ar gyfer prosiectau dysgu parhaus, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo awdurdodi Swyddogion i archwilio'r cyfleoedd sy'n cael eu hariannu gan grantiau ac sydd ar gael o fewn y rhaglen gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru, ac i sicrhau'r opsiwn mwyaf buddiol ar gyfer y cyngor.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I gael gafael ar gyllid grant Rhaglen
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf, ac yn amodol ar ganlyniad y cais am gyllid grant, bydd rhoi’r rhaglen o brosiectau ar waith yn galluogi'r cyngor i hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni potensial pob plentyn. Bydd hefyd yn galluogi'r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn ei ardal

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a fydd yn dod i ben ar 28 Tachwedd 2022 am 9.00am. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

**Ymgynghoriad:**

Wrth i'r rhaglen ddatblygu, bydd pob prosiect yn destun ymgynghoriad gyda chymunedau'r ysgol priodol. Os bydd prosiect yn golygu cau ysgol, cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn unol â gofynion deddfwriaethol.

8. **ADRODDIAD ARFARNU OPSIYNAU CEFN COED**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig,

1. cymeradwyo'r argymhellion allweddol canlynol mewn egwyddor ac yn amodol ar ffrydiau cyllido sydd ar gael:

- Maint y costau sydd eu hangen ar gyfer atgyweiriadau hanfodol i alluogi'r amgueddfa i ailagor yn ddiogel i'r cyhoedd.
- Defnyddiau amgen posib ar gyfer y safle a'r adeiladau.
- Archwiliad o rôl a chyfraniad Amgueddfa Glofa Cefn Coed fel safle treftadaeth a chyrchfan i dwristiaid.
- Adolygiad o gyfleoedd adfywio presennol ac yn y dyfodol ar gyfer Cefn Coed.
- Ffynonellau incwm amgen trwy grantiau a chyllid allanol.
- Cyfleoedd i greu incwm.

2. Cymeradwyo awdurdodi Swyddogion i archwilio'r cyfleoedd sy'n cael eu hariannu gan grantiau ac sydd ar gael o fewn y rhaglen gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru, ac i sicrhau'r opsiwn mwyaf buddiol ar gyfer y cyngor.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r awdurdod i gynllunio ac archwilio opsiynau yn y dyfodol ar gyfer datblygu safle amgueddfa Cefn Coed.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a fydd yn dod i ben ar 28 Tachwedd 2022 am 9.00am. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

## 9. CREU PARTNERIAETH RANBARTHOL AR GYFER CHWARAEON A GWEITHGARWCH CORFFOROL YNG NGORLLEWIN CYMRU

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyo datblygiad a sefydlu Partneriaeth Rhanbarthol newydd ar gyfer Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol yng ngorllewin Cymru, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Parhau i weithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, a sicrhau cyllid ar gyfer y Rhaglen Pobl Ifanc Actif. Sicrhau bod y gefnogaeth a’r cyfleoedd cywir ar waith ar gyfer y rheini nad ydynt yn gorfforol heini yn rheolaidd - gyda ffocws clir ar ddileu rhwystrau ar gyfer y rheini sydd angen cymorth fwyaf.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a fydd yn dod i ben ar 28 Tachwedd 2022 am 9.00am. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

10. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**